# Bioddiogelwch mewn Pysgodfeydd – sut mae lliniaru'r risgiau sy'n cael eu creu gan glefydau pysgod a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol

## Cyflwyniad

Mae clefydau a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn fygythiad enfawr i bysgodfeydd a systemau dyfrol. Mae'n amlwg ei bod hi'n well (ac yn rhatach) atal na gwella o ran eu cyflwyno, ac mae'n hollbwysig cynnal bioddiogelwch da i leihau'r risg o gyflwyno clefydau a rhywogaethau goresgynnol.

Nod y canllawiau hyn yw eich helpu chi, perchennog y bysgodfa, i nodi mesurau bioddiogelwch a allai fod yn berthnasol i'ch safle. Maen nhw'n disgrifio mesurau bioddiogelwch y mae modd eu rhoi ar waith ac yn cynnwys templed i helpu i ddatblygu a gweithredu cynllun ystyrlon.

Yn y ddogfen hon, mae "pysgota" a "physgotwyr" yn golygu pysgota â gwialen a physgotwyr â gwialen.

## 1. Penodi Rheolwr/Hyrwyddwr Bioddiogelwch

Nodwch unigolyn i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod mesurau bioddiogelwch ar waith. Bydd y rheolwr bioddiogelwch yn gyfrifol am gynhyrchu a chynnal cynllun bioddiogelwch. Mae hyn yn cynnwys camau 2 a 3 isod – i nodi'r risgiau posib ac wedyn penderfynu ar systemau a gweithdrefnau priodol i reoli neu leihau'r risgiau hyn.

## 2. Nodi risgiau cyflwyno clefyd neu rywogaeth anfrodorol oresgynnol

### *(a) Pobl yn symud o amgylch y bysgodfa*

Dylech ystyried y canlynol mewn cysylltiad â physgotwyr yn ymweld â'r safle:

- Pysgotwyr sy'n ymweld â'r safle gyda dillad neu offer pysgota gwlyb sy'n cynnwys clefydau pysgod neu rywogaethau anfrodorol goresgynnol o safleoedd eraill yn anfwriadol.

Os oes gan y cyhoedd fynediad at y corff dŵr neu at fannau gerllaw:

- Byddwch yn ymwybodol o'r posibilrwydd o bobl yn gwaredu planhigion neu anifeiliaid anwes, fel pysgod aur.

### *(b) Symudiad cerbydau ac offer arall, fel trelars*

- Dylid talu sylw arbennig i waith sy'n cael ei wneud ar fwy nag

un safle ar yr un diwrnod.

- Byddwch yn ymwybodol o fwd ar wyneb olwynion cerbydau, a allai gynnwys hadau neu ddarnau o blanhigion.

- Byddwch yn ymwybodol o ddarnau o blanhigion a allai fod yn sownd i drelars a/neu offer cwch.

### *(c) Symudiad pysgod*

Os oes rhaid cyflwyno pysgod neu wyau o ffynonellau allanol, dylech chi fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Tarddiad y pysgod pan fyddwch yn prynu gan gyflenwr.

- Halogyddion neu hitsheicwyr ar y pysgod ac yn y dŵr sy'n rhan o'r broses o ddanfon y pysgod.

### *(d) Rheoli cynefinoedd*

- Pan fydd planhigion yn cael eu cyflwyno i'r safle, byddwch yn ymwybodol o unrhyw blanhigion wedi'u labelu'n anghywir ac o halogyddion yn y planhigion ac unrhyw bridd cysylltiedig.

- Byddwch yn ymwybodol o rywogaethau anfrodorol goresgynnol yn lledaenu i fannau cyfagos wrth dynnu neu waredu llystyfiant fel rhan o waith rheoli cynefinoedd.

## 3. Nodi mesurau i leihau'r risg (bioddiogelwch uwch)

Os bydd risgiau'n cael eu nodi, dylai rheolwr/hyrwyddwr bioddiogelwch y bysgodfa benderfynu ar y systemau a'r gweithdrefnau priodol i reoli neu leihau'r risgiau hyn. Gallai'r mesurau hyn gynnwys:

- Hyfforddi staff i adnabod arwyddion clinigol o glefydau a'u galluogi i nodi rhywogaethau anfrodorol goresgynnol sy'n uchel eu risg.

- Rhoi cyngor bioddiogelwch i bysgotwyr ac ymwelwyr eraill â'r bysgodfa.

- Cyflwyno protocolau a chyfleusterau bioddiogelwch i ymwelwyr â'r safle.

Mae awgrymiadau ar gyfer mesurau eraill, mwy penodol, yn y templed ar gyfer Cynllun Bioddiogelwch Pysgodfa isod.

# Templed – CYNLLUN BIODDIOGELWCH PYSGODFA

Mae'r templed ar gyfer Cynllun Bioddiogelwch Pysgodfa wedi cael ei gynhyrchu i amlinellu mesurau y gellir eu rhoi ar waith i leihau'r risg o gyflwyno rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn eich pysgodfa, neu o'u lledaenu o'ch pysgodfa. Dylid nodi bod y templed yn amlinellu amrywiaeth o fesurau i ddarparu ar gyfer gwahanol bysgodfeydd, felly efallai na fydd rhai o'r mesurau'n berthnasol i'ch safle chi. Felly, nid oes rhaid i chi fabwysiadu'r holl fesurau ym mhob adran.

Mae deunyddiau *Edrych, Golchi, Sychu* fel taflenni a phosteri ar gael i'w llwytho i lawr yma.

Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Pysgota â Gwialen yma i gael arwyddion *Edrych, Golchi, Sychu* am ddim.

| **Risg o gyflwyno clefydau/ rhywogaethau anfrodorol goresgynnol** | **Mesurau posib i leihau'r risg** | **Wedi rhoi'r mesur(au) ar waith** (✓) |
|---|---|---|
| **Mynediad at y Safle** | 1. Rhoi arwyddion *Edrych, Golchi, Sychu* yn y prif fynedfeydd | |
| **Pysgotwyr yn cyrraedd y safle** | 1. Rhoi negeseuon *Edrych, Golchi, Sychu* ar hyd y fynedfa i wneud pysgotwyr a'r cyhoedd yn ymwybodol o risgiau rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Gallai'r lleoliadau addas gynnwys y maes parcio, llwybrau troed cyhoeddus, ac ati<br>2. Darparu cyfleusterau golchi er mwyn i bysgotwyr allu golchi offer pysgota ac esgidiau cyn pysgota<br>3. Rhoi rhwydi i bysgotwyr eu defnyddio ar y safle. Dylai'r rhwydi hyn aros yn y bysgodfa<br>4. Annog aelodau i ddilyn yr e-ddysgu bioddiogelwch sydd ar gael yma | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cystadlaethau/ digwyddiadau pysgota â gwialen** | 1. Rhoi deunyddiau *Edrych, Golchi, Sychu* i bysgotwyr cyn y digwyddiad<br>2. Cyfyngu ar fynediad at y safle i un fynedfa i wneud yn siŵr bod cyfranogwyr yn cerdded heibio pwyntiau gwybodaeth bioddiogelwch a'r orsaf olchi, os oes un ar gael<br>3. Rhoi rhwydi glanio a chadw i'r cystadleuwyr yn ystod y digwyddiad<br>4. Yn ystod y broses gofrestru, gofyn i'r cystadleuwyr lanhau rhwydi ac esgidiau, neu rwydi trochi, yn y cyfleusterau golchi<br>5. Os oes cyfleuster golchi ar gael, rhoi arwyddion yn y cyfleuster i roi gwybod i'r cystadleuwyr pa offer i'w lanhau, ac arolygu'r mannau'n drwyadl<br>6. Gallai'r trefnydd roi sancsiynau i annog y cystadleuwyr i ddilyn y mesurau bioddiogelwch cyn y digwyddiad neu wrth gyrraedd y digwyddiad. | |
| **Cerbydau'n cyrraedd y safle** | 1. Darparu protocol bioddiogelwch ar gyfer cerbydau sy'n ymweld â'r safle<br>2. Gwneud yn siŵr bod cerbydau wedi cael eu harchwilio, eu glanhau a'u sychu cyn eu defnyddio<br>Gwneud yn siŵr bod yr olwynion yn lân cyn iddynt ddod i mewn i'r safle.<br>4. Gwneud yn siŵr nad oes mwd a darnau o blanhigion ar drelars a phympiau cyn dod i mewn i'r safle.<br>5. Cynllunio gwaith i wneud yn siŵr ei fod yn dechrau i fyny'r afon, gan weithio am i lawr.<br>6. Os oes gwaith yn cael ei wneud ar fwy nag un safle ar yr un diwrnod, gwneud yn siŵr bod safleoedd rydych chi'n gwybod eu bod yn cynnwys rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn cael eu gadael tan ddiwedd y dydd | |

| | | |
|---|---|---|
| **Rheoli'r stoc bysgod** | **Archwilio pysgod**<br>1. Cynnal archwiliad o'r pysgod goresgynnol yn eich pysgodfa<br><br>**Cyflwyno stoc bysgod yn y bysgodfa**<br>1. Hyfforddi staff i adnabod arwyddion clinigol o glefydau a'u galluogi i nodi rhywogaethau anfrodorol goresgynnol sy'n uchel eu risg<br>2. Gwneud yn siŵr bod rhwydi wedi cael eu glanhau a'u sychu cyn eu defnyddio i drosglwyddo pysgod<br>3. Trosglwyddo cyn lleied â phosib o ddŵr i'r llyn | |

| | | |
|---|---|---|
| **Rheoli cynefinoedd** | **Archwilio planhigion**<br>1. Cynnal archwiliad o'r planhigion goresgynnol yn eich pysgodfa<br><br>**Plannu**<br>1. Defnyddio rhywogaethau Prydeinig o blanhigion lle bo modd.<br><br>**Rheoli llystyfiant**<br>1. Os yw'r bysgodfa'n sownd i safleoedd eraill, lle bo modd, cau'r all-lif, defnyddio rhwystr neu roi rhwydi ar draws i ddal deunyddiau wrth i'r gwaith fynd rhagddo er mwyn lleihau'r risg o ddeunyddiau'n gadael y safle<br>2. Gwneud yn siŵr bod esgidiau wedi cael eu glanhau a'u sychu cyn cyrraedd y safle<br>3. Os oes peiriannau'n cael eu defnyddio, gwneud yn siŵr eu bod wedi cael eu glanhau cyn eu defnyddio, gan gynnwys wyneb olwynion, trelars cychod<br>4. Gadael deunyddiau planhigion ar y lan i'w caniatáu i sychu/pydru yn gyfan gwbl. Gwneud yn siŵr nad yw'r deunydd ger dyfroedd eraill, gan gynnwys ffosydd, ffrydiau neu lynnoedd eraill | |
| | | |

| Risg o ledaenu clefydau/ rhywogaethau anfrodorol goresgynnol | Mesurau i leihau'r risg | Wedi rhoi'r mesur(au) ar waith |
|---|---|---|
| **Pysgotwyr yn gadael y safle** | 1. Rhoi arwyddion *Edrych, Golchi, Sychu* mewn meysydd parcio a/neu allanfeydd i atgoffa pysgotwyr i ddilyn y drefn *Edrych, Golchi, Sychu* cyn pysgota rhywle arall<br>2. Darparu cyfleusterau golchi i alluogi pysgotwyr i lanhau offer pysgota ac esgidiau ar ôl pysgota ar y safle<br>3. Os nad oes cyfleusterau golchi ar gael, annog pysgotwyr i edrych yn ofalus ar eu hoffer a'u hesgidiau, ac i dynnu deunydd gweladwy cyn gadael y safle. | |
| **Cystadlaethau pysgota â gwialen** | 1. Ar ôl y digwyddiad, atgoffa'r cystadleuwyr y dylent ddilyn y drefn *Edrych, Golchi, Sychu* cyn defnyddio eu hoffer pysgota a'u hesgidiau rhywle arall<br>2. Rhoi arwyddion *Edrych, Golchi, Sychu* yn yr allanfeydd i atgoffa pysgotwyr i ddilyn y drefn *Edrych, Golchi, Sychu* cyn pysgota rhywle arall | |
| **Cerbydau'n gadael y safle** | 1. Gwrio cerbydau am fwd a darnau o blanhigion, a'u tynnu cyn i'r cerbyd adael y safle<br>2. Golchi trelars a cherbydau cyn iddynt adael y safle | |
| **Pysgod yn gadael y safle** | 1. Cydymffurfio â'r canllawiau ar symud pysgod: Yng Nghymru, dilynwch ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn Lloegr, dilynwch ganllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd ac yn yr Alban dilynwch ganllawiau Marine Scotland | |
| **Rheoli cynefinoedd** | 1. Dilyn y drefn *Edrych, Golchi, Sychu* ar gyfer offer a chyfarpar diogelwch personol cyn eu hail-ddefnyddio | |